Cenn@d

MEHEFIN 29 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 70

Swyddog Eco-eglwys newydd i helpu i roi hwb i'r gweithredu ynghylch byd natur a'r hinsawdd mewn eglwysi ledled Cymru

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT

Mae Delyth Higgins wedi ymuno â'r elusen gadwraeth Gristnogol, A Rocha UK, yn swyddog Eco-eglwys i Gymru. Mae Delyth yn ymuno â ni ar adeg pan fo galw cynyddol am y cynllun Eco-eglwys (Eco Church) wrth i fwy o eglwysi ofyn am gymorth i gymryd camau ymarferol i ofalu am ddaear Duw. Mae Delyth yn medru'r Gymraeg ac yn byw yn Abertawe. Yn flaenorol, bu'n gweithio gydag Adfywio Cymru (Renew Wales), y rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi grwpiau cymunedol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae nifer sylweddol yng Nghymru wedi ymuno â'r cynllun Eco-eglwys, ac mae mwy na 150 o eglwysi wedi cofrestru. Mae'r adborth gan yr eglwysi hyn wedi amlygu'r galw am bresenoldeb mwy rhanbarthol er mwyn cydlynu digwyddiadau, rhwydweithiau, a hyrwyddo'r cynllun.

Nod A Rocha UK yw ehangu a dyfnhau cwmpas y cynllun Eco-eglwys yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd mwy o eglwysi o wahanol feintiau ac enwadau yn cofrestru gyda'r cynllun.

Mae Cymru'n gartref i eglwysi mawr mewn dinasoedd sy'n tyfu, ond hefyd i gapeli a phlwyfi traddodiadol bychain yn y wlad, ac mae Delyth yn gobeithio annog llawer ohonynt i ddod yn Eco-eglwysi.

Bydd yr eglwysi yn elwa o ddysgu ar y cyd, cefnogaeth, syniadau ac adnoddau, yn ogystal â siarad â'r rhai sydd eisoes wedi gwneud rhywbeth tebyg. Mae adnoddau Eco-eglwys newydd ar gael eisoes yn Gymraeg, a bydd Delyth yn adeiladu ar y rhain, yn ogystal â gallu cynnig mwy o sgyrsiau a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae A Rocha UK yn gweithio i ddiogelu ac adfer byd natur trwy alluogi Cristnogion ac eglwysi yn y Deyrnas Unedig i ofalu am yr amgylchedd fel rhan reolaidd o'u bywyd unigol a chenhadaeth eu heglwys.

Meddai Delyth: "Ers symud tŷ dair blynedd yn ôl, rwy wedi dod yn fwy ymwybodol fyth o fyd natur, ac rwy'n ymddiddori yn yr amrywiaeth aruthrol o adar rwy'n eu gweld yn dod i'r ardd a'r golygfeydd hardd tua'r mynyddoedd yn y gogledd – ym mhob un o'r tymhorau wrth iddyn nhw newid. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â'r bobl ar draws Cymru sydd wedi cychwyn ar y cynllun Eco-eglwys, sy'n gwneud hynny'n awr, ac a fydd yn gwneud hynny, ac yn arbennig at feithrin perthynas a rhwydweithiau ymhlith eglwysi ledled Cymru, fel bod modd iddyn nhw ddysgu oddi wrth ei gilydd, cefnogi ei gilydd ac annog ei gilydd."

Meddai Helen Stephens, Rheolwr Cysylltiadau Eglwysi yn A Rocha UK: "Rydyn ni'n awyddus i hyrwyddo a gwreiddio Eco-eglwys yn ddyfnach ledled Cymru, gan ein bod yn cydnabod

bod heriau unigryw mewn gwahanol rannau o'r wlad. Felly rydyn ni wrth ein bodd yn croesawu Delyth Higgins i A Rocha UK er mwyn ehangu a dyfnhau gwaith Eco-eglwys yng Nghymru, ar adeg pan na fu erioed fwy o frys i'r Eglwys gyflawni ei rôl (ochr yn ochr â sectorau eraill y gymdeithas) wrth ofalu am ein planed werthfawr.

Mae hi'n dod â dealltwriaeth a doethineb o'i blynyddoedd yn Adfywio Cymru, lle bu eisoes yn gweithio gydag eglwysi ar y newid yn yr hinsawdd, a chan ei bod wedi byw yng Nghymru ar hyd ei hoes, mae ganddi ddealltwriaeth ddofn o'r diwylliant. Mae hi'n ymuno â thîm Eco-eglwys prysur iawn, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda hi."

Tamsin Morris
Swyddog y Wasg,
A Rocha UK

Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron
Tudalen 2

Ffydd a diwylliant Golau
Tudalen 5

Hyder ynghanol diffyg hyder
Tudalen 7

Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron

Cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi eleni os byddwch yn mynd i gyfeiriad Tregaron ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhelir o ddydd Sadwrn, 30 Gorffennaf, tan ddydd Sadwrn, 6 Awst.

Byddwn ar agor bob dydd rhwng 9.00 a 5.30, ac rydyn ni'n edrych ymlaen i'ch croesawu.

Ymhlith yr atyniadau yno fe fydd:

- paned a theisen gri (a diod oer efo bisgedi i'r plant)
- oedfa fer bob dydd am 11 o'r gloch o dan ofal yr eglwysi lleol
- digwyddiad byw bob dydd am 2 o'r gloch
- gweithgaredd i blant drwy gydol y dydd
- gorsaf weddi a myfyrdod i oedolion
- arddangosfa gan Gymorth Cristnogol yn y stondin drws nesaf i Babell yr Eglwysi
- dewis eang o'r llyfrau Cristnogol diweddaraf
- cyfle am sgwrs a seibiant o fwrlwm y maes
- croeso cynnes i bawb.

Cadwch olwg hefyd am yr ardd fyfyrdod, a fydd wedi ei gosod yn ardal y lle bwyd, o dan nawdd Cymdeithas y Beibl. Mae hon yn ardd sydd wedi ei chludo yno o Sioe Flodau Chelsea, ac yn fan ar gyfer encil a myfyrdod. Trwy glicio ar god QR ar eich ffôn symudol, mae cyfle i wrando ar fyfyrdod yn y Gymraeg, yn canolbwyntio ar Salm 23.

Yr oedfa 'nôl yn y Pafiliwn eleni

Yn ogystal â phresenoldeb o fewn y stondin, cofiwch hefyd am yr oedfa a gynhelir yn y Pafiliwn am 9.00 y bore ar ddydd Sul, Gorffennaf 31ain. Bydd yr oedfa o dan arweiniad aelodau a chyfeillion o'r eglwysi lleol, yn blant ac oedolion. Bydd thema'r oedfa yn dilyn thema'r Eisteddfod, sef 'Dadeni' ac yn olrhain hanes Dewi Sant, mynachod Ystrad-fflur, Daniel Rowland a'r heddychwr o Dregaron, Henry Richard, gan gofio am yr angen am heddwch yn ein byd ar hyn o bryd. Cyflwynir neges fer gan D. Densil Morgan. Noder y bydd angen prynu Tocyn Maes er mwyn cael mynediad i'r oedfa, felly dylid un ai brynu tocyn ymlaen llaw o wefan yr Eisteddfod, neu dalu wrth gyrraedd y maes.

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod

Cynhelir y Gymanfa Ganu hefyd ar yr un Sul, sef 31 Gorffennaf, a bydd honno'n dechrau am 7 o'r gloch eleni, awr ynghynt nag arfer.
Mae modd prynu tocyn i'r Gymanfa hefyd o wefan yr Eisteddfod o 24 Mehefin ymlaen.

Arweinydd y Gymanfa fydd Delyth Hopkins Evans, gydag Iestyn Evans yn cyfeilio ar yr organ.
Bydd Côr y Gymanfa yn perfformio 'Dyn a aned o wraig' gan D. Christmas Williams.

Yr emynau a fydd yn cael eu canu eleni yw:

Tôn	Geiriau
Aberystwyth	Iesu, cyfaill f'enaid
Bro Eleri	Ysbryd graslon, gad i mi
Builth	Rhagluniaeth fawr y nef
Côr Caersalem	O ganu bendigedig
Cymod	Caed trefn i faddau pechod
Daeth Iesu i'm calon i fyw	Mae dyddiau llawenydd gerllaw
Llanbadarn	Ti yw'r Un sy'n adnewyddu
Llwynbedw	Ysbryd y gwirionedd, tyred
Pantyfedwen	Tydi a wnaeth y wyrth
Penlan	I Dduw y dechreuadau
Pen-parc	Ai am fy meiau i
Preseli	Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn
Rheidol	Cofia'n gwlad, benllywydd tirion
Rhosymedre	O nefol addfwyn Oen
Trysor y Crud	Pan anwyd Crist ym Methlehem dref

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 / aleddavies@cytun.cymru

Ailagor Tŷ Barclay

Bydd Tŷ Barclay, llety gwyliau yn Aberystwyth i weinidogion a gweithwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ailagor ym mis Gorffennaf.
Derbynnir archebion dros y ffôn – 01970 624802 – o 10yb ddydd Sadwrn, 25 Mehefin, ymlaen.

Iwan Jenkins
Warden

Oedfa Ddinesig y Maer

'Nôl ym mis Mai cafodd y Cynghorydd Trystan Phillips a Mrs Sioned Phillips eu gwneud yn Faer a Maeres tref Aberteifi mewn seremoni sefydlu.

Braint o'r mwyaf i Gapel Ebeneser Dyfed oedd cynnal, am y tro cyntaf, Oedfa Ddinesig y Maer.

Daeth cynulleidfa dda i addoli gyda'n gilydd ac i ofyn am fendith ar waith y ddau am y flwyddyn sydd i ddod. Darllenodd Mr John Davies, Cwmbetws, ddarnau o'r Bregeth ar y Mynydd; cawsom eitem hyfryd gan blant ysgol Sul weithgar y capel, a darllenwyd emyn gan Gwern a Glain Phillips, plant y Maer a'r Faeres newydd. Rhannodd y Gweinidog neges yn cyfeirio at bwysigrwydd adeiladu gwaith y Cyngor ar dir solet, sef cariad at eraill, fel y dyn doeth yn nameg Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd.

Ac, wrth gwrs, braf oedd rhannu disied o de a rhywbeth bach neis i'w fwyta yn y festri yn dilyn yr oedfa.

Y Cynghorydd Trystan Phillips, Mrs Sioned Phillips a'r Parch. Sian Elin

Plant yr ysgol Sul yn diddanu'r gynulleidfa yn ystod yr oedfa

Pawb yn mwynhau paned o de ar ôl yr oedfa

Rali'r Ysgolion Sul Cymanfa Bedyddwyr Sir Benfro

Y plant a'u tystysgrifau

Mrs Enfys Howells

I goroni wythnos o ddathliadau Cymanfa Penfro, cawsom fore hyfryd yng Nghapel Tabor, Dinas, yn dathlu gwaith yr ysgolion Sul yng nghapeli Bedyddwyr y sir.

Ar ôl dwy flynedd digon heriol i lawer iawn o bobl, daeth cynulleidfa hardd i wrando, addoli a diolch i Dduw am yr holl waith da sydd yn dal i ddigwydd yn ein capeli. Roedd yr oedfa o dan lywyddiaeth y Parch. Alwyn Daniels, gyda Mrs Margaret Rhys wrth yr organ.

Gwobrwywyd 85 o blant yn i gyd, gyda llawer iawn ohonyn nhw wedi dod i dderbyn tystysgrif a thaleb fel rhodd am eu gwaith astudio ar 'Dafydd: Bardd a Brenin'. Mrs Marian Phillips, Llywydd newydd Cymanfa Penfro, ddosbarthodd y tystysgrifau i blant ysgolion Sul Blaenffos, Cylch Carn Ingli ac Ebeneser Dyfed.

Cawsom eitemau gwych gan Ysgol Sul Cylch Carn Ingli i ddechrau, wrth iddyn nhw adrodd hanes y Brenin Dafydd a chanu cân.

Uchafbwynt y rali oedd y neges a rannwyd gan Mrs Enfys Howells, Prifathrawes Ysgol Bro Ingli ac aelod gweithgar yng Nghapel Caersalem. 'Yr Arwr Annisgwyl' oedd thema neges Enfys, wrth iddi sôn fod gan bawb botensial a bod Duw yn ein defnyddio, ond bod angen i ni fod yn barod i fentro.

Diolchodd Sian Elin, Ysgrifennydd Pwyllgor yr Egin Gwyrdd, i'r holl blant, yr athrawon a'r rhieni am eu hymroddiad i'r ysgolion Sul. Dangosodd fideo a gafodd ei greu a'i anfon i Gartref Gofal Glyn Nest ar ddechrau'r cyfnod clo. Fe wnaeth ein hatgoffa cymaint sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a faint sydd wedi newid yn ein byd.

I orffen yr oedfa mewn steil, aeth y plant i gael hufen iâ a diod yn y caffi newydd sydd wedi ei leoli yn Festri Tabor, sef Te Orinda.

Roedd arddangosfa o waith y plant yn y capel yn seiliedig ar y testun 'Dafydd: Bardd a Brenin'.

Casglwyd £200 tuag at Apel BMS Wcráin yn ystod yr oedfa.

Os ydych am weld beth arall sydd yn digwydd gyda'r Egin Gwyrdd, dilynwch y grŵp ar Facebook.

Arddangosfa o waith y plant

‘Gwneud synnwyr o’r Beibl’ – Y Gwir Barchedig Jeffrey John Darlith Morlan Pantyfedwen, 3 Mai 2022

Roedd y gymeradwyaeth hir a brwd a roddwyd i ddarlith y Parchg Jeffrey John yn neuadd Morlan yn arwydd o ddyfnder gwerthfawrogiad y gynulleidfa. Cadwodd y darlithydd ein diddordeb trwy gydol yr amser, gan gyfathrebu’n hynod effeithiol ac eglur, yn ddeallus ysgolheigaidd ac yn naturiol ddiddan yr un pryd.

Testun heriol oedd gan Jeffrey John, sef sut i wneud synnwyr o’r Beibl. Ar ryw olwg, roedd yn destun dwl: onid yw’r Beibl yno i’w ddarllen a’i wrando, heb inni feddwl gormod am holl ystyr y geiriau? Dyna’n union ein perygl, meddai’r darlithydd. Dadleuai’n gryf fod deall cefndir a chyd-destun llyfrau’r Beibl yn hollbwysig wrth inni geisio ei astudio.

Disgrifiodd ei hun yn fachgen ifanc yn eglwys Tonyrefail yn gwrando ar Salm 51, ac yn methu cysoni’r hyn mae’r salm yn ei ddweud yn adnod 16 (‘Oherwydd nid wyt yn ymhyfrydu mewn aberth; pe dygwn boethoffrymau, ni fyddit fodlon’) â’r hyn a ddywedir yn adnod 19 (‘Yna fe ymhyfrydi mewn aberthau cywir – poethoffrwm ac aberth llosg – yna fe aberthir bustych ar dy allor’). Esboniodd taw ychwanegiad at y salm wreiddiol yw adnodau 18–19, ychwanegiad sy’n perthyn i gyfnod gwahanol a chyd-destun diwylliannol gwahanol, a bod gwybod hynny yn hanfodol i gael deall y salm yn iawn.

Ac ar y trywydd yna yr aeth â ni am awr gyfan, yn trafod gwahanol ddarnau yn y Beibl, o lyfr Ruth i Efengyl Marc i Lyfr y Datguddiad, ac yn eu goleuo gydag esboniadau ar eu cefndir a’u cyd-destun. Trwy’r cyfan roedd yn pwysleisio nad tanseilio’r Beibl oedd ei fwriad, ond dangos fel y mae deall hanes a chyd-destun nid yn unig yn agor ein meddyliau ac yn helaethu ein deall, ond yn wir yn cryfhau ein ffydd. Ac fe bwysleisiodd mai gwir Air Duw yw y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, sef Iesu Grist ei hun. Cyfrwng yw’r Beibl inni ddod ato ef, a rhaid gweld heibio i’r geiriau ar bapur i ystyr sylfaenol y neges – yng ngeiriau Pantycelyn, ‘heibio i degwch, at y tegwch gwir ei hun’.

O feddwl dros y ddarlith, fe’m cefais fy hunan yn awyddus i bwysleisio nad yw dehongliadau esbonwyr yn sefyll am byth (yn wir maent yn newid o genhedlaeth i genhedlaeth), ac y gellir bod yn rhy ddogmatig wrth bwysleisio un dehongliad arbennig o ran o’r ysgrythur, fel y gall rhai fod yn ddogmatig wrth ddarllen popeth yn llythrennol.

Mesur yw hynny o gyfoeth a gwychder y ddarlith a’r traddodi. Gwnaeth Jeffrey John inni feddwl, ac am hynny rydym yn ddwfn yn ei ddyled.

Llun: Richard Gillin from St Albans, UK - A brace of Deans, CC BY-SA 2.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=87342419

Y Gwir Barchedig Jeffrey John

Rhidian Griffiths

(O ‘Perthyn’, cylchgrawn Capel y Morfa, Aberystwyth; gellir gwylio recordiad o’r ddarlith ar YouTube: https://youtu.be/8vP98-lBsB4)

Cyfle unigryw i gael copïau o Destament Newydd dwyieithog ar gyfer eich eglwysi

Ar un cyfnod bu Cymdeithas y Beibl yn cyhoeddi Testament Newydd dwyieithog, a hynny gyda thestun y Beibl Cymraeg Newydd a’r Good News Bible. Bydd llawer ohonoch efallai’n cofio’r llyfrau gwyrdd eu lliw, a nifer wedi cael budd mawr o gael y testun yn y ddwy iaith ochr yn ochr. Gwnaed rhediad hefyd o rai â chlawr glas golau, gyda’r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig yn 2004. Erbyn hyn mae’r rhain allan o brint, a dros y blynyddoedd bu nifer yn chwilio am gopïau ail law. Yn anffodus, ni fu’n bosib ailargraffu yn ystod y cyfnod hwnnw, gan mai cymharol fychan, mae’n debyg, oedd y galw.

Fodd bynnag, gyda datblygiadau ym myd argraffu digidol, does dim rhaid gwneud rhediadau anferth erbyn hyn, ac felly bu cyfle yn ddiweddar i edrych o’r newydd ar y posibiliadau.

Mae Cymdeithas y Beibl, mewn cydweithrediad â Chyhoeddiadau’r Gair, felly’n gweithio ar broject i argraffu rhediad o Destament Newydd dwyieithog, y tro hwn gan ddefnyddio testun beibl.net ochr yn ochr â thestun y Good News Bible. Y bwriad yw argraffu nifer cyfyngedig gan ddefnyddio technoleg argraffu ar alw (print on demand). Felly, o hyn tan ddiwedd Medi 2022, byddwn yn casglu archebion gan eglwysi, ac yna’n argraffu’r union nifer hwnnw er mwyn cyflenwi archebion. Tra byddai pris arferol cyhoeddiad o’r math hwn tua £14.99, y gobaith o ddilyn y drefn yma yw y bydd modd cael copïau i eglwysi am rhwng £6 a £7 y copi. Bydd y pris terfynol yn ddibynnol ar faint yr archeb – y mwyaf o gopïau y gallwn eu harchebu, y gorau oll wrth gwrs.

Felly, os ydych am sicrhau copïau ar gyfer eich eglwys, gyrrwch ebost at aled@ysgolsul.com gan nodi sawl copi y byddech yn dymuno’i dderbyn. Bydd y print yn y Testament hwn o faint canolig, yn fwy na phrint arferol beibl.net ond heb fod mor fawr â Beibl print bras. Os byddwch yn mynd i gyfeiriad y Sioe Fawr yn Llanelwedd neu’r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, mae croeso i chi alw heibio i weld Aled ar stondin yr eglwysi. Yno, bydd ganddo un copi sampl wedi ei baratoi, er mwyn i chi weld y safon a maint y print. Pwysleisiwn mai argraffu ar alw y byddwn ni, ac ni ellir cyflenwi unrhyw archebion a ddaw i law ar ôl diwedd Medi gan bydd y Testamentau’n cael eu hargraffu ddechrau Hydref. Mae hwn yn gyfle unigryw i gael copi o holl gynnwys y Testament Newydd yn Gymraeg a Saesneg. Dyma adnodd gwych ar gyfer grwpiau trafod ac astudiaeth, yn ogystal â dysgwyr.

Aled Davies
Cyfarwyddwr
Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau’r Gair

Ffydd a diwylliant Golau

Mae'r golofn hon yn dilyn wrth gynffon un y mis diwethaf, gweler *Cenn@d* 65.

Roeddwn i'n sôn am ryw awydd diweddar sy wedi codi ynof i dynnu lluniau byd natur. A'r hyn a'm trawodd i wrth orffen ysgrifennu oedd pa mor allweddol yw goleuni yn y broses honno.

Fe glywch chi bobl yn sôn fod yna 'olau da' yn rhywle.

Dwi'n aml yn tynnu lluniau ar lwybrau cyfarwydd iawn, felly mae hyn yn golygu mod i'n cerdded heibio'r un pethau'n ddyddiol bron heb iddyn nhw fy nharo fi'n arbennig o gwbl. Ond eto, ambell fore, pan mae'r golau'n dda, mae rhywun fel petai'n gweld gogoniant ym mhopeth.

Dyna sut nad oedd Monet'n diflasu, mae'n siŵr. Roedd golau'r ardd yn newid yn ddyddiol. Ond, wrth gwrs, roedd ei lygaid yntau, a'r ffordd roedd o'n derbyn ac yn gweld y golau hwnnw, yn newid hefyd wrth i'w lygaid ddirywio.

Ambell ddiwrnod yn fwy na'i gilydd, mae'r dwyfol yn teimlo'n nes, a phurdeb y goleuni sydd i gyfri am hynny, mae'n debyg. Fe allwn ni syllu ar yr un peth, ar yr un person, gallwn wrando ar yr un geiriau neu'r un nodau drosodd a throsodd, ac un diwrnod o gant mae rhywun yn cael cip annisgwyl ar rywbeth rhyfeddol, cyn mynd yn ôl i gylch o gyffredinedd neu hyd yn oed i nos dywyll, lle nad ydy rhywun yn gweld dim.

Sawl gwaith oedd Waldo wedi syllu ar y 'ddau gae' yna, tybed, cyn sylwi ar y môr goleuni yn ymrolio? Yn sicr, mae'n cyfaddef iddo 'holi'n hir yn y tir tywyll', nes iddo, un dydd, gael cip ar yr anghyffredin yn y cyfarwydd, cyffredin, a llwyddo i'w ddal am dragwyddoldeb yn y gofod rhwng geiriau.

Rwyf wedi sôn yn y golofn hon, cyn hyn, am lecynnau tenau ac am bensaernïaeth denau, lle mae'r dwyfol wedi ymddangos yn nes na'r cyffredin i genedlaethau o ddynoliaeth. Ond mae'n werth ystyried goleuni yn y cyd-destun hwnnw hyd yn oed. Oes, mae yna ryfeddod a theimlad yno fod y dynol a'r dwyfol wedi ymestyn i gyffwrdd â'i gilydd, fel Duw ac Adda ar nenfwd y Sistine, ers miloedd o flynyddoedd. Ond er gwaethaf hynafiaeth y bensaernïaeth a'r llecynnau arbennig, mae rhai dyddiau'n bwysicach na'i gilydd. Yn rhywle fel Bryn Celli Ddu, y dyddiau lle mae'r dwyfol, ar awr arbennig, drwy drefn gwyddoniaeth a phensaernïaeth, yn estyn ei olau i dywyllwch eithaf y bedd, yw'r dyddiau rhyfeddaf un.

Nid yw 'golau da' bob amser yn olau mawr ychwaith. Golau sy'n taro ar y lle iawn ar yr amser iawn i'r llygad iawn i'w werthfawrogi, sy'n gwneud golau da.

Ac mae'n anodd peidio meddwl am ymadroddion fel 'gweld golau yn llygaid' rhywun neu fod llygaid rhywun a'u hwyneb nhw'n 'goleuo' neu fod haul a pherson yn gallu gwenu.

Y gamp i ni ydy chwilio ymysg y pethau a'r bobl yr ydyn ni fwyaf cyfarwydd â nhw a dal i chwilio, a dal ati eto nes daw y diwrnod y gwelwn ni nhw mewn 'golau da'. Mae'n siŵr o ddigwydd.

Arwel Rocet Jones

O'r Beibl: 6

Cyfres ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

"Beth sy'n bod gyda'r byd?"

Darllen: Genesis 2:8–3:7

Yn ddiamau, mae'r cwestiwn uchod yn un sydd ar feddyliau nifer o bobl heddiw. Wrth i'r ddynoliaeth wynebu pandemig rhyngwladol, cynhesu byd-eang a rhyfel yn Wcráin, mae'n amhosibl peidio â dod i'r casgliad fod yna rywbeth difrifol yn bod gyda'r byd. Ond *beth* sy'n bod gyda'r byd? Beth yw'r broblem fawr?

I'r Comiwnydd, problem fawr y byd yw'r economi. I'r ymgyrchydd cymdeithasol, anghydraddoldeb yw'r broblem waelodol. I eraill eto, trais a rhyfel yw problem fwyaf sylfaenol y ddynoliaeth. Yn wir, does dim prinder atebion yn cael eu cynnig i'r cwestiwn oesol hwn.

Mae'r Beibl, er hynny, yn cynnig ateb llawnach: ateb sy'n fwy cynhwysfawr a chyflawn na'r rhai uchod. Beth felly yw'r ateb hwn?

Esbonia'r Beibl mai symptomau o broblem lawer dyfnach yw'r pethau a restrir uchod. Symptomau erchyll yw trais, rhyfel, llygredd, hiliaeth, anghyfartaledd o broblem ddifrifol sydd gennym fel pobl. Problem y galon ddynol. Mewn geiriau eraill, y rheswm pam fod pobl yn rhyfela yn erbyn ei gilydd, yn llygru'r amgylchedd, yn trin ei gilydd mewn ffordd mor warthus ydy fod gan y galon ddynol broblem enfawr.

Dyma'n union beth mae Iesu'n ei ddweud yn Mathew 15. Yn oes Iesu, roedd y Phariseaid yn dysgu fod pethau allanol (e.e. bwyd) yn halogi rhywun a'u gwneud nhw'n aflan. Roedd Iesu'n anghytuno. Wrth ymateb iddynt, dywedodd y geiriau canlynol:

"Oni welwch fod popeth sy'n mynd i mewn i'r genau yn mynd i'r cylla ac yn cael ei yrru allan i'r geudy? Ond y mae'r pethau sy'n dod allan o'r genau yn dod o'r galon, a dyna'r pethau sy'n halogi rhywun. Oherwydd o'r galon y daw cynllunio drygionus, llofruddio, godinebu, puteinio, lladrata, camdystiolaethu, a chablu. Dyma'r pethau sy'n halogi rhywun; ond bwyta â dwylo heb eu golchi, nid yw hynny'n halogi neb" (Mathew 15:17–20).

Mae gan y galon ddynol broblem ac mae problemau'r byd yn deillio o'r broblem sylfaenol hon.

Beth felly yw problem y galon? Problem y galon ddynol yw ein bod wedi gwrthryfela yn erbyn Duw gan feddwl ein bod ni'n gwybod yn well nag ef a'n bod yn gallu byw heb wrando arno a heb ei adnabod. Gair y Beibl am ein gwrthryfel yw 'pechod'.

Mae llyfr Genesis yn egluro wrthym pa mor ddifrifol yw'r cyflwr hwn. Ar ôl i Dduw greu Adda ac Efa, fe'u gosododd yng Ngardd Eden. Yno, darparodd yn helaeth ar eu cyfer. Dywedodd Duw y câi Adda ac Efa "fwyta'n rhydd o bob coeden yn yr ardd" (Genesis 2:16). Yr unig beth wnaeth Duw orchymyn iddynt beidio â'i wneud oedd hyn: "ni chei fwyta o bren gwybodaeth da a drwg, oherwydd y dydd y bwytei ohono ef, byddi'n sicr o farw" (Genesis 2:17).

Trasiedi enfawr dynoliaeth yw mai dyma'n union a wnaethom. Pan ddaeth y sarff i gwestiynu geiriau Duw, bwytaodd Adda ac Efa ffrwyth y goeden. Nid gweithred fympwyol oedd hon, ond gwrthryfel agored yn erbyn ein Creawdwr. Trwy fwyta'r ffrwyth, roedd dynoliaeth yn tybio ei bod hi'n gwybod yn well na Duw ac yn gallu byw'n iawn hebddo. Ond doedd hynny ddim yn wir! Nid oedd gennym syniad sut i fyw ac nid oedd bywyd i'w gael y tu allan i'n perthynas â Duw. Canlyniad ein gweithred dorcalonnus oedd rhwygo ein perthynas gyda'n Creawdwr. Cwympodd y ddynoliaeth i bechod a daeth dioddefaint a marwolaeth yn rhan o'n bywydau bob dydd.

Yn ddi-os, byth ers y Cwymp, mae'r galon ddynol wedi bod yr un mor wrthryfelgar, ystyfnig a phechadurus. Rydym yn byw mewn byd toredig gan ein bod yn byw mewn byd syrthiedig.

Newyddion da'r Beibl, fodd bynnag, ydy fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi dod i'r byd nid yn unig i ddelio â symptomau ein pechod, ond i ddelio gyda'i wreiddyn, gyda'i ffynhonnell: ein calonnau. Bu farw ar y groes er mwyn talu'r pris yr ydym yn ei haeddu am ein beiau ac atgyfododd yn fyw ar y trydydd dydd. Mae Iesu'n fyw heddiw ac mae'n cynnig maddeuant a chalon newydd i bwy bynnag sy'n dod ato fe mewn ffydd: 'Rhof iddynt galon i'm hadnabod, mai myfi yw'r ARGLWYDD; a byddant yn bobl i mi, a minnau'n Dduw iddynt hwy. Byddant yn troi ataf fi â'u holl galon' (Jeremeia 24:7).

Gwilym Tudur

Trafod ac ymateb:

- Trafodwch ganlyniadau pechod ac anufudd-dod i Dduw.
- A deimlwn fod gennym esboniad gwell ein hunain neu fel cymdeithas i'r cwestiwn: 'Beth sy'n bod gyda'r byd?'?
- 'Rydym yn byw mewn byd toredig gan ein bod yn byw mewn byd syrthiedig.' Beth sydd i'w wneud am hyn?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 3 Gorffennaf, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)
Yr wythnos yma, bydd Ryland yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Fe gawn ni gyfle i ailfwynhau rhai o straeon y gyfres a chydganu rhai o'n hoff emynau.

Dyma gopi o gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 3 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp
Cymanfa Eglwysi Cymraeg Canol Llundain – rhan 2: Rhys ab Owen yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Eglwysi Cymraeg Canol Llundain.

Oedfa Radio Cymru
Sul, 3 Gorffennaf, am 12:00yp
Gwasanaeth dan ofal Cas Meurig, y Bala

Diolch – a dymuno'n dda

Ar ran y Cyfundeb, wrth i'r Parch Meirion Morris ymddeol yr wythnos hon o'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwddwr Gweinidogaethau, yr ydym yn mynegi ein diolch a'n gwerthfawrogiad o'i holl waith a'i arweiniad dros gyfnod o ddeng mlynedd a mwy. Gwyddom am ei ymroddiad a'i ddycnwch yn ei swydd, ei holl ymrwymiad i'r gwaith, a'r ffordd y mae ei wybodaeth helaeth o'r Cyfundeb wedi bod o gymorth i eraill, yn unigolion a Henaduriaethau fel ei gilydd. Gwerthfawrogwn hefyd ei gefnogaeth i nifer o weithwyr a phrosiectau.

Diolch, Meirion – dymunwn y gorau i chi a phob bendith arnoch chi a Sarah i'r dyfodol.

T. Evan Morgan
Llywydd y Gymanfa

Hyder ynghanol diffyg hyder

Mae nodyn clir o ddiffyg hyder wedi bod yn y newyddion yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Ar 6 Mehefin wynebodd Boris Johnson bleidlais o hyder oddi mewn i'w blaid ei hunan. Enillodd y bleidlais, ond mae llawer yn darogan mai hyn yw dechrau'r diwedd i arweinydd y Torïaid. Ar ben hynny, ymddiswyddodd ei gynghorydd annibynnol ar fuddiannau gweinidogaethol ar 15 Mehefin, ar ôl awgrymu bod y Prif Weinidog wedi torri cod ymddygiad gweinidogion y senedd.

Mae hyn yn cyd-fynd â diffyg hyder cyffredinol mewn gwleidyddion a chyfnod ansicr iawn o ran yr economi. Does fawr o hyder gan bobl yn eu hamgylchiadau dyddiol ar hyn o bryd chwaith. Mae nwyddau yn brin, prisiau bwyd a thanwydd yn codi'n gyflym, a'r esgid yn gwasgu ar lawer.

Mor hyfryd yw gallu cyhoeddi bod Efengyl Iesu Grist yn rhoi gwir hyder i ni, beth bynnag yr amgylchiadau, yn Nuw, trwy'r Arglwydd Iesu Grist: 'Felly, gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.' (Hebreaid 4:16)

Mae'r addewid yma'n addo y cawn ni, bechaduriaid, ddod at orsedd y nef – mewn gweddi – unrhyw bryd, gan ddisgwyl derbyniad a gwrandawiad gan y Duw hollalluog a sanctaidd. Sut mae hyn yn bosibl?

Llun: Llun Boris Johnson CC 2.0

Archoffeiriad mawr

Gwaith gwleidyddion yw cynrychioli pobl yn y senedd, a gwaith archoffeiriad Israel oedd cynrychioli pobl o flaen Duw yn y cysegr. Mae Iesu yn archoffeiriad sy'n cynrychioli pobl o bob cenedl, lliw a llun, yn y nef. Caiff y gwleidyddion eu hethol gan bleidleiswyr eu hardal, ond cafodd Iesu ei ethol gan Dduw'r Tad, cyn creu'r byd. Daeth i'r swydd drwy wisgo cnawd dynol, byw ar y ddaear fel dyn, heb bechod, rhoi ei fywyd dros ddynion ar y groes, atgyfodi ac esgyn yn ôl i'r nef fel Duw-ddyn.

Cydymdeimlo

Mae'r Beibl yn dweud yn glir fod Iesu'n hapus i ystyried y ddynoliaeth fel brodyr (a chwiorydd) iddo. Roedd yn hapus i uniaethu â ni drwy fod yn Waredwr ac Arglwydd i ni. Roedd yn cynrychioli ei bobl wrth gael ei fedyddio, wrth wynebu temtasiwn, wrth ddioddef, marw, atgyfodi ac esgyn i'r nef.

Mae yn y nef nawr ar ran ei bobl, sef pob un sy'n edifarhau am ei bechod yn erbyn Duw ac yn dod at Iesu Grist am faddeuant, derbyniad a bywyd tragwyddol – bywyd o berthynas iawn â Duw.

Does dim hyder gan lawer yn y gwleidyddion yn San Steffan, eu bod yn eu cofio a'u hystyried ac yn deall eu sefyllfa. Ond mae Iesu Grist yn ymbil dros ei bobl yn y nef yn awr (Rhufeiniaid 8:34). Mae wedi anfon yr Ysbryd Glân i ddod â bywyd Duw i'n henaid ni – i'n harwain i droi at Grist a'i geisio o ddifrif, i'n sicrhau o gariad achubol Duw, ac o nerth i ddal ati fel Cristnogion yn y byd, tan y diwedd.

Trugaredd a gras

Er bod prinder nwyddau ac ansicrwydd yn yr economi yn realiti i lawer heddiw, mae gwarant oes o drugaredd a gras, beth bynnag ein hamgylchiadau, yn Iesu Grist. Mae trugaredd yn golygu peidio â derbyn ein haeddiant. Mae llawer yn sôn am gael yr hyn maen nhw'n ei haeddu yn ein cymdeithas heddiw, ond bendith aruthrol gan Dduw yw peidio â chael ein haeddiant, sef cosb fythol am ein gwrthryfel a'n pechod yn ei erbyn Ef a'n cyd-ddyn.

Mae gras yn golygu derbyn yr hyn mae Iesu Grist yn ei haeddu, sef holl fendithion y nef: derbyniad llawn a heddwch gyda Duw, tangnefedd Duw, cymdeithas â'r Tad a'r Mab trwy'r Ysbryd Glân yn y Gair, ein mabwysiadu yn blant ac etifeddion y nef, rhyddid llwyr oddi wrth gondemniad pechod, ac enwi rhai.

Diolch am yr Arglwydd Iesu Grist! Gadewch i ni gymryd pob cyfle i rannu'r hyder cadarn sydd i'w gael ynddo Fe i bwy bynnag sy'n dod ato mewn gwirionedd, faint bynnag yw ein diffyg hyder mewn arweinwyr dynol ac amgylchiadau daearol.

John Treharne

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

‘Mae’n henwau’n sgrifenedig fry …’

Darlleniad: Salm 66:1–9

Gweddi

Arglwydd Dduw, yr hwn wyt yn dda, yn gyfiawn ac yn bur yn dy holl weithredoedd cariadlawn, addolwn di. Yr ydym yn diolch i ti nad gan dy elynion y mae’r gair olaf. I ti, yr Alffa a’r Omega, y dechrau a’r diwedd, y mae’r gallu a’r nerth a’r gogoniant. Diolchwn i ti dy fod yn agor llwybrau diogel i’th bobl. Diolchwn i ti dy fod wedi rhoi i’th bobl le ymhlith y rhai byw. Yr ydym yn dyheu am y dydd a’r awr pan fydd holl gyfoeth dy Enw – dy fod yn dda, yn gyfiawn ac yn bur yn dy holl weithredoedd cariadlawn yn Iesu Grist – yn uchel drwy’r holl fyd. Arglwydd, addolwn di. Amen.

Emyn 236: ‘Am iddo fynd’

Darlleniad: Luc 10:1–11 – Heriau mynd …

I fyd oedd yn llawn o heriau ac o wrthwynebwyr niferus anfonodd Iesu ei ddisgyblion. Gan ddefnyddio cyfres o ddarluniau byw paratôdd Iesu ei ddisgyblion ar gyfer y ‘profiad mewn gwaith’ yr oeddynt ar fin ei wynebu. Yr oeddynt i fynd allan i’r pentrefi cyfagos fesul dau er mwyn i’r ddau fod *yn gwmni* i’w gilydd ar y daith; *yn gefn* i’w gilydd pe na bai croeso cynnes i’w neges ym mhob man; ac wrth fynd fesul dau gallent *warchod ei gilydd* mewn amgylchiadau heriol.

Defnyddiodd Iesu gyfres o ddarluniau byw i’w paratoi ar gyfer y gorchwyl oedd yn eu hwynebu.

Byddai *cynhaeaf* yn dilyn eu llafur. Ond yn y *meysydd* y cawsant eu gyrru allan iddynt roedd yna ‘fleiddiaid’ peryglus na fyddent yn hir cyn rheibio’u hymdrechion. Ar y *daith* yr oeddent arni nid oedd amser i oedi. Roeddynt *ar frys*, a’r amser i gyflawni’r dasg yn mynnu nad oedd amser i wastraffu mewn siarad diwerth. Rhaid oedd teithio’n ysgafn heb oedi a heb gario beichiau trymion ein ‘pethau’ bob dydd. Nid oedd amser chwaith i oedi os na fyddai croeso i’r neges fod Teyrnas Dduw wedi dod yn agos yn Iesu Grist. Deuai gwrthwynebiad, ond byddai croeso hefyd i’r neges wrth iddynt baratoi’r ffordd ar gyfer eu Meistr.

Hyd yn oed heddiw, mewn oes dechnolegol, soffistigedig, lle mae dulliau cyfathrebu cyfoes yn cynnig ffyrdd o rannu’r newyddion da am ddyfodiad Teyrnas Dduw, dulliau sy’n ymddangos yn fwy effeithiol, mae’r Arglwydd yn parhau i ddewis pobl fel ni i rannu yn yr ymdrech a’r llawenydd o ddwyn efengyl Iesu Grist i’r byd. Dewisodd bobl wan, ffaeledig, parod iawn i anobeithio i fod yn gyd-lafurwyr yng nghynhaeaf llawen ei Deyrnas. Dewisodd ef ni i fod yn offerynnau ei hedd.

Yn ôl Teresa o Afila:

> Nid oes gan Grist gorff yn awr ond eich corff chi,
> Na thraed ar y Ddaear ond eich traed chi.
> Eich llygaid chi yw’r llygaid y mae’n edrych trwyddyn nhw
> Mewn trugaredd ar y byd hwn.
> Eich traed chi yw’r traed y mae’n cerdded â nhw
> i wneud daioni.
> Eich dwylo chi yw’r dwylo
> Y mae ef yn bendithio’r holl fyd â nhw.
> Eich dwylo chi yw’r dwylo, eich traed chi yw’r traed.
> Eich llygaid chi yw’r llygaid, chi yw ei gorff.
> Nid oes gan Grist gorff yn awr ond eich corff chi,
> Na thraed ar y Ddaear ond eich traed chi.
> Eich llygaid chi yw’r llygaid y mae’n edrych trwyddyn nhw
> Mewn trugaredd ar y byd hwn.
> Nid oes gan Grist gorff yn awr ond eich corff chi.

Darlleniad: Luc 10:16–20 – Llawenydd wrth ddychwelyd

Mor llawen oedd y disgyblion wrth iddynt ddychwelyd o’u cenhadaeth arbrofol. Roeddynt yn synnu, yn llawenhau hyd yn oed, fod eu hymdrech gychwynnol wedi bod mor effeithiol. Ymddangosai fel pe bai hyd yn oed pwerau difaol a gelyniaeth yn methu gwrthsefyll neges y Deyrnas. Ac roeddynt hyd yn oed wedi deall mai ‘yn dy enw di’ y daeth eu hawdurdod.

Ond, yn ôl Iesu, roedd i’w hymdrechion arwyddocâd llawer mwy na’u cenhadaeth uniongyrchol.

Gan efelychu Eseia 14:12 dywedodd Iesu ei fod wedi ‘gweld’ Satan, gwrthwynebydd yr Arglwydd a’i bobl, yn syrthio, ar amrantiad, fel mellten. Yn y cyd-destun gwreiddiol, rhag-weld cwymp Brenin Babilon a’i ymerodraeth y mae Eseia. Mae peth anghydweld am union arwyddocâd geiriau Iesu. Tybed a oedd yn cyfeirio at weld cwymp Satan mewn byd cyn-amser, fel yng ‘Ngholl Gwynfa’, a bod Iesu’n dyst pan fwriwyd Lwsiffer o’r nef? Neu ai sôn am y goncwest derfynol dros ddrygioni ar ddiwedd amser y mae Iesu? A bod sicrwydd y fuddugoliaeth mor ddiogel fel y medrai sôn am y goncwest derfynol, sydd eto i’w chwblhau yn y dyfodol, fel pe bai eisoes yn goncwest oedd wedi ei chyflawni? Roedd i’r egin genhadaeth hon, felly, arwyddocâd eschatolegol am gyflawniad Teyrnas Dduw.

Byddai sylweddoli hyn yn ddigon o achos i beri i’w ddisgyblion lawenhau.

Ond, yn ôl Iesu, roedd un peth oedd yn fwy sicr ac yn galw am wir lawenydd ynddynt. A hynny oedd fod ‘eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd’, fod cofnod o’u perthynas ag Iesu, o’u diogelwch yn Iesu, o’u derbyniad gan Iesu, o’u rhan ym muddugoliaeth Iesu wedi ei gofnodi mewn man diogel, sicr, annileadwy. Dyma safle diogel i fyw a gweithio ynddo, man lle na all amgylchiadau dyrys newid statws eu perthynas â Duw. Dyma drysor na all y lleidr mwyaf cyfrwys ei reibio. Dyma etifeddiaeth na all unrhyw un ei difetha (1 Pedr 1:3–8).

A dyma achos llawenydd y Cristion ym mhob oes ac ym mhob man. Mae’n hyder sydd bron â bod wedi ei golli’n llwyr yn ein plith. Mor llawen a hyderus yw canu Dafydd Jones o Gaio wrth feddwl am hyn oll i gyd:

> Mae’n henwau’n sgrifenedig fry
> Yn llyfr y bywyd mawr;
> Ni ddichon Satan a’i holl lu
> Oddi yno’u tynnu i lawr.
>
> Er tloted ydym ni yn awr,
> Er gwaeled yw ein gwedd,
> Mae inni etifeddiaeth fawr
> Yr ochor draw i’r bedd.
>
> Plant ydym eto dan ein hoed,
> Yn disgwyl am y stad;
> Mae’r etifeddiaeth inni’n dod
> Wrth destament ein Tad.
>
> Am hynny, blant, na fyddwn drist,
> Yn hytrach llawenhawn:
> Cyd-etifeddion ŷm â Christ,
> Rhan o’i ogoniant cawn.

Gweddi

Arglwydd, rho i ninnau drwy dy Ysbryd Glân y ddealltwriaeth, yr wybodaeth, y sicrwydd ffydd i gredu, i bwyso ac i fyw yng ngoleuni’r wybodaeth fod ein henwau’n sgrifenedig fry. Diolch mai’r Tad a’u hysgrifennodd, yr Arglwydd Iesu ei hun a’u diogelodd, a’r Ysbryd Glân a seliodd hyn oll ynom. Amen.

Emyn 573: ‘Disgyn, Iesu, o’th gynteddoedd’

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru